**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

28 Mehefin 2017

Annwyl Nick,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Mai. Roedd adroddiad eich Pwyllgor ar y cymorth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i Kancoat yn argymell y dylwn sicrhau bod Cod y Gweinidogion yn ei gwneud hi’n ofynnol i ystyried gwrthdaro buddiannau tybiedig a bod canlyniad unrhyw ystyriaeth o'r fath yn cael ei ddogfennu'n llawn.

O dan God y Gweinidogion, mae eisoes yn ofynnol i Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion gymryd gofal arbennig dros benderfyniadau a allai o bosibl achosi gwrthdaro buddiannau yn deillio o'u cyfrifoldebau portffolio a buddiannau eu hetholaethau. Mae Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion yn bersonol gyfrifol am eu gweithredoedd a'u hymddygiad a rhaid iddynt gyfiawnhau eu hymddygiad wrth y Cynulliad os oes angen. Os ydynt yn ystyried bod *posibilrwydd* o wrthdaro buddiannau, ceisir cyngor gan fy swyddfa i a phan fo atgyfeiriadau o'r fath yn cael eu gwneud, maent yn cael eu dogfennu, felly i'r perwyl hwn mae'r argymhelliad eisoes yn cael ei fodloni. Rwy'n ystyried y term *posibilrwydd* yn ddigon eang i ddal materion a allai, ym marn Ysgrifennydd y Cabinet, achosi *canfyddiad* o wrthdaro buddiannau.

Byddaf yn ysgrifennu at Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion yn gofyn iddynt ystyried penderfyniadau sy'n cael eu gwneud y tu allan i'w hetholaethau a allai fod o fudd cysylltiedig i'w hetholwyr hwythau ac os ystyrir bod y budd hwnnw yn ddigon sylweddol, dylid ei gyfeirio at fy swyddfa innau i gael cyngor ar sut i ymdrin â’r mater.

Yn gywir,

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.